Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

6. Cyflogi a rheoli pobl

6.1 Gweithio yn y sector gwirfoddol

Mae'r sector gwirfoddol yn y DU yn gymhleth ac yn ddeinamig, yn newid yn aml i gwrdd â gofynion cymdeithas, ac yn tyfu ar raddfa sylweddol fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau.
Mae'n amgylchfyd cyffrous ac ymdrechgar, ac mae'r unigolion sy'n gweithio o'i fewn, yn gyflogedig neu beidio, yn gwybod y gallant gael gwir effaith ar fyd a bywydau'r bobl y mae'r mudiadau yn ceisio'u helpu.

Mae yna tua 30,000 o fudiadau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru. Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn cyflogi o leiaf 30,000 o bobl, sy'n cynrychioli 2.4% o'r bobl cyflogedig yng Nghymru. Amcangyfrifir fod 944,000 o oedolion yn gwirfoddoli mewn mudiad, ble maen nhw'n cyfrannu cyfartaledd o 2 awr bob wythnos. Mae hwn yn gyfartal â 99 miliwn awr y flwyddyn neu 54,600 o weithwyr llawn amser. Gyda'i gilydd, mae'r ffigyrau yma'n nodi fod 188 miliwn o oriau gwaith gwirfoddol yn cael eu rhoi o fewn blwyddyn, sy'n werth £2 biliwn.

Felly, mae'r cwmpas yn anferth ac mae'r sector yn gyflogwr sylweddol o fewn yr economi Cymreig. Gyda mudiadau a mentrau newydd yn nodwedd gyson o'r sector, mae'r angen am bobl, talent a sgiliau newydd yn parhau.

Swyddi yn y sector gwirfoddol - pa rai sy'n iawn ar eich cyfer chi?

Unwaith y dechreuwch archwilio'r byd elusennau ac edrych am fath o swydd a fydd yn eich gweddu chi, cewch eich hybu a'ch gorlethu efallai gan ystod y disgrifiadau swydd sydd o'ch blaen.

Mae'r sector gwirfoddol wedi datblygu ei jargon a'i ddull o weithio ei hun, ac mae'n ddefnyddiol i feddwl am sut y bydd eich sgiliau chi yn cyd-fynd â gofynion yr elusen.

Mae gan y sector lawer i'w ennill gan unigolion yn trosglwyddo'u sgiliau a'u profiadau o gefndiroedd ac elusennau eraill, a bydd elusennau bob amser yn barod i recriwtio pobl sy'n gallu **cyfathrebu'n dda, dysgu'n gyflym,** a **rheoli'n effeithiol** ar adnoddau cyfyng. Nid oes gan elusennau bach staff cyflogedig, a gwneir y gwaith i gyd ar sail wirfoddol gan yr ymddiriedolwyr. Mae'r elusennau hynny sy'n medru fforddio talu, angen rhywun, rhan amser gan amlaf, all droi ei law at unrhyw beth, ac sydd â'r gallu i fod yn hyblyg a hyderus i siarad a gwneud penderfyniadau yn ogystal â threfnu'r system weinyddol.

Wrth i'r mudiadau dyfu, felly mae'r swyddi, ac oherwydd natur unigryw bob elusen, bydd y rhannau sy'n tyfu gyntaf yn dibynnu ar y blaenoriaethau trefniadol.

Yn fras, y swyddi allweddol cyntaf i'w hychwanegu efallai bydd codwr arian, rheolwr prosiect, gweithiwr cyllid / gweinyddol a swydd gwybodaeth / cysylltiadau cyhoeddus.

Mae gan yr elusennau mwyaf strwythurau cymhleth gyda ffwythiannau arbenigol a phenodol i'w cymharu â'r rhai yn y sectorau masnachol neu gyhoeddus.

Pa sgiliau sydd angen i weithio yn y sector?

Bydd cystadleuaeth danbaid am swyddi yn yr elusennau mwyaf enwog ac i'r swyddi sy'n talu'n dda, felly byddwch yn barod i gyfiawnhau mai chi yw'r ymgeisydd gorau. Pan fyddwch yn ystyried os yw'r cymysgedd sgiliau sydd gennych yn iawn ar gyfer swydd benodol, byddai'n ddefnyddiol os allwch nodi pa sgiliau sydd gennych yn barod, ac os gallwch chi ddysgu'r sgiliau eraill yn eithaf cyflym. Dylid crynhoi'r math o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn yr hysbyseb, a'u nodi'n fanylach yn y fanyleb person sy'n cyd-fynd â'r ffurflen gais a'r disgrifiad swydd. Wrth gwblhau'r ffurflen gais, sicrhewch eich bod yn dangos, drwy roi esiamplau, y sgiliau a'r priodweddau hanfodol yn y fanyleb person. Dyma ymarfer pum cam i'ch helpu:

Dewiswch 5 sgil sydd gennych (a rhai sy'n werthfawr i chi).
Meddyliwch am esiamplau penodol ble ddefnyddioch y sgiliau yma (gallant fod yn berthnasol i'r cartref neu'r gwaith).

Meddyliwch am y sgiliau fydd eu hangen arnoch i wneud swydd benodol neu fath o waith. Ydyn nhw gyda chi? Os nad ydynt, sut ydych chi'n mynd i'w datblygu?

Unwaith y byddwch wedi adnabod eich sgiliau trosglwyddadwy, gwnewch yn siŵr fod eich CV yn barod ar gyfer y sector gwirfoddol, a chynhwyswch unrhyw brofiad o'r sector sydd gennych. Cofiwch does dim rhaid iddo fod yn brofiad cyflogadwy.

Pwyntiau ymarferol i ddarganfod y swydd iawn

Cymerwch ran mewn gwaith gwirfoddol ac ymaelodwch ag elusen sydd o ddiddordeb i chi. Gall gwirfoddoli roi sgiliau newydd i chi a dealltwriaeth well o'r ffordd y mae'r elusen yn gweithredu. Meddyliwch yn ofalus am y math o fudiad y byddwch yn ymuno ag ef ac os ydych yn ei siwtio. Sicrhewch eich bod yn cydymdeimlo ag amcanion a bwriadau'r elusen. Cyfarfyddwch â nifer o bobl â phosib sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol, a gofynnwch am eu cyngor.

Ble i edrych

1. Hysbysebion swyddi

Swyddi rhwydwaith - wythnosol
(ar gael drwy gofrestru gyda networkjobs@wcva.org.uk)

Western Mail – bob Dydd Iau

Daily Post – bob Dydd Iau

South Wales Echo – bob Dydd Mercher

Hefyd edrychwch yn eich papur lleol.

2. Asiantaethau recriwtio elusen

Efallai y byddwch eisiau galw gyntaf i wirio pa feysydd penodol neu lefelau profiad sydd eu hangen - ac os yw'ch cymysgedd sgiliau chi yn addas i osgoi gwastraffu CV a chostau postio. Yn aml, maen nhw'n recriwtio ar gyfer elusen drwy osod hysbyseb yn ogystal ag edrych ar eu bas data eu hunain. Yn ychwanegol i'r rhai a nodir isod, mae rhai ymgynghorwyr unigol yn cynnig cyngor recriwtio i'w cleientiaid, ac mae rhai o'r prif gwmnïau recriwtio yn gofyn am wybodaeth oddi wrth yr elusennau - gan amlaf y rhai mwyaf.

Action Planning
Ffôn: 020 8642 4122
www.actionplanning.co.uk

Adept Recruitment
Ffôn: 020 72402390
www.adept-recruitment.co.uk

Aquilas
Ffôn: 01727 375 361
www.aquilas.co.uk

CF Appointments
Ffôn: 020 79531190
www.cfappointments.com

Charity Action Recruitment
Ffôn: 020 7378 5441
www.c-a-r.org.uk

Charity Connections
Ffôn: 020 7202 9000
www.charityconnections.com

Charity futures
Ffôn: 02920 706999
enquiries@charityfutures.com

Charity People
Ffôn: 020 7299 8700
www.charitypeople.co.uk

3. Gwefannau

Goodmoves
www.gooodmoves.org.uk

Charity Job
www.charityjob.co.uk

One Job
www.1job.co.uk

ic Wales
www.icwales.co.uk

Jobs Wales
www.jobswales.co.uk

Charity Sector Jobs.
www.charitysectorjobs.com

Guardian Jobs
www.jobs.guardian.co.uk

Jobsgopublic
www.jobsgopublic.com

Jobs in Charities
www.jobsincharities.co.uk

Voluntary Sector Jobs
www.voluntarysectorjobs.co.uk

4. Y dull uniongyrchol

Gallwch ddethol rhai o'ch hoff elusennau ac ysgrifennu neu e-bostio'n uniongyrchol. Anfonwch lythyr gyda'ch CV bob amser, ble rydych yn amlinellu'n glir eich sgiliau (peidiwch anghofio eich sgiliau TGC a phrosesu geiriau) a'r math o waith y teimlwch y gallwch ei gyflawni.

Darganfyddwch enw'r person i ysgrifennu ato / ati yn hytrach na defnyddio Annwyl Syr / Fadam, ac amgaewch amlen, gan y bydd yn sicrhau ateb cyflymach, ac yn dangos eich sensitifrwydd i adnoddau cyfyng eich elusen.

5. Cyhoeddiadau

Working for a better world
Gweithio i fyd gwell
Dyma ganllaw llawn gwybodaeth i swyddi cyflogedig yn y sector elusen. Mae'n amlinellu beth yw sector elusen, pa waith sydd ar gael, sut fath yw'r swyddi, ac yn bwysicaf, sut i fod yn rhan ohono.
www.ukworkforcehub.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:14/09/2007

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk